

Panel Recriwtio Cyfarwyddwr

08 Awst 2022

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mrs D Clements, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies,
Mr G Jones a'r Cynghorydd PJ Morgan.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 9.00a.m. – 4.00p.m.)

1. Ymddiheuriad am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Mrs J James.

2. Datgan Buddiannau

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, y Cynghorydd M James a'r Cynghorydd PJ Morgan gan eu bod yn gyfarwydd ag ambell un o'r ymgeiswyr o safbwynt swyddogaeth broffesiynol.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Penderfynwyd cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022.

4. Eithrio'r cyhoedd

Penderfynwyd eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

5. Penodi Cyfarwyddwr Cynllunio, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu

Roedd y Pwyllgor wedi cyfweled pedwar ymgeisydd am y swydd Cyfarwyddwr Cynllunio, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu.

Penderfynwyd penodi Ms S Morris yn Gyfarwyddwr Cynllunio, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu.

